CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
20 Hydref 2015, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, G D Williams, A Wyn, D Morgan, A Williams, N Roberts (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, W Williams, C McGregor, D Roberts, D ap Rhobert	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng A Wyn
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng W Vaughan (mater 5.4), Cyng N Roberts (materion cynllunio)
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15 Medi 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Morgan yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Llangwyllog** - Darllenwyd ebost gan PCSO Marcia Hughes yn dweud mae'r ddau dabl yn dangos y nifer o gerbydau yn teithio 46mya+. Penderfyniwyd cyfeirio y mater at Gan Bwyll.
4.2	**Gofeb Talwrn** - Mae'r clerc yn disgwyl pris gan Melvin Rowlands, Llangefni
4.3	**Wal Lon y Capel** - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.4	**Arwydd - Neuadd** - mae'r Clerc wedi cyflwyno cais am yr arwydd
4.5	**Lon yr Ysgol** - Nid yw y gwaith wedi cael ei wneud. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Cyngor Sir
4.6	**Palmant Talwrn** - mae'r Clerc yn disgwyl y cynlluniau
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C304A/VAR Cais o dan Adran 73 i diwygio amod 02 o dileu amodau 15 a 16 ac 17 o ganiatad cynllunio rhif 23C304 (cais amlinellol ar gyfer codi annedd) er mwyn alluogi dair blynadd arall i gyflwyno cais am faterion neilltuol a dileu amoda yn ymwneud a'r cod cartrefi cynaliadwy yn Ty Croes, Talwrn - dim sylwadau
5.2	23C328 cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Bodneithior Talwrn - dim sylwadau
5.3	23C293A cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 4 Tai Newydd, Talwrn - dim sylwadau
5.4	23C327A/DEL Cais o dan Adran 73 i dynnu amod 11 (cygyngu preswylydd yr eiddo) o caniatad cynllunio rhif T2432A (codi annedd) yn Bryn Fynnon, Talwrn - penderfyniad: gwrthwynebu o rhan egwyddor. Dyma'r unig ffordd mae'r ymgeisydd wedi cael cynllunio.
	Llofnod…….Cadeirydd 17.11.15

5.5	23C253C Cais llawn i newid adeilad allanol i annedd sydd yn cynnwys estyniad ynghyd a gosod paced trin carthffosiaeth yn Bodwena, Cefniwrch - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.6	Lon yr Ysgol - gweler 4.5
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Unllais Cymru - agenda y cyfarfod nesaf 22.10.15
6.2	National Grid - cyfarfod briffio 23.10.15 (gwybodaeth yn unig)
6.3	PCSO M Hughes - gor yrru Llangwyllog - gweler 4.1
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfyniwyd talu:
	£20.00 Poppy Appeal (Torch), hefyd cyfraniad at costau lein BT a broadband y clerc £80.00 am flwyddyn
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cytunwyd i ofyn am PCSO Cymraeg i fynychu'r cyfarfodydd misol. Bydd y clerc yn gofyn i'r Heddlu.
8.2	Eisteddfod Genedlaethol 2017. Dywedodd Cyng D Pritchard bydd targed y plwyf (Talwrn, Capel Coch, Maenaddwyn, Tregaian a Llangwyllog) yn £7500.
8.3	Soniodd Cyng G D Williams am cais cynllunio am 71 o "chalets" yn Mynydd Bodafon. Nid yw y Clerc wedi derbyn y cais. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir
	Llofnod…….Cadeirydd 17.11.15